**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

11 Hydref 2017

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol

**Tâl Uwch Reolwyr**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Awst yn amgáu copi o'r Adroddiad ar dâl uwch reolwyr drwy sector cyhoeddus Cymru rhwng 2015 a16. Nodwyd y rhain gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod ei gyfarfod ar 25 Medi.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor blaenorol. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r argymhelliad ar waith yn briodol, mae'r Aelodau am i fanylion tâl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac uwch swyddogion yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch gael eu cynnwys yn yr adroddiadau yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn i'r adroddiadau hyn gael eu paratoi bob blwyddyn. Yn olaf, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthyf y byddai'n fodlon i'w staff drafod yr adroddiad nesaf gyda chi tra bydd yn cael ei baratoi, pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565